# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Dyddiad ac Amser

**3.45 y.h., DYDD LLUN, 17EG CHWEFROR, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

AELODAETH

**AELODAU CABINET**

Y Cynghorydd Dewi Jones (Addysg)
Y Cynghorydd Huw Wyn Jones (Cyllid)

**PRIF WEITHREDWR**

Mr Dafydd Gibbard

**PENNAETH CYLLID**

Mr Dewi A Morgan

**PENAETHIAID UWCHRADD**

Ms Jano Owen – Ysgol Bro Idris
Mr Aled Williams – Ysgol Ardudwy
Mr Arwyn Williams – Ysgol Brynrefail
(Sedd Wag)

**PENAETHIAID CYNRADD**

Mr Gwion Owens – Ffederasiwn Cefn Coch a Thalsarnau
Mr Richard Derwyn Jones – Ysgol Chwilog
Ms Nia Puw
Mr Kyle Jones – Ysgol yr Hendre
Mr Alan Wynn Jones – Ysgol Cymerau
Mrs Eleri Morgan Davies – Ysgol Y Gorlan

**UNDEBAU ATHRAWON**

Mr Clive Thomas – Ysgol Syr Hugh Owen

**LLYWODRAETHWYR**

**Arfon**

Y Cynghorydd ioan Thomas – Ysgol y Gelli ac Ysgol Syr Hugh Owen
Sedd Wag

**Meirionnydd**

Ms Carys Meleri Fowles – Ysgol Penybryn & Ysgol Tywyn
Mr Eifion Roberts – Ysgol Godre’r Berwyn

**Dwyfor**

Y Cynghorydd Gwilym Jones, Ysgol Borthygest,
Y Cynghorydd Gwynfor Owen, Ysgol Hafod Lon

**ESGOBAETH**

Robert Townsend – Archddiacon Meirionnydd

**YSGOLION EGLWYS**

Ms Joanna Thomas– Ysgol y Faenol

**YSGOLION ARBENNIG**

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 9

I gadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 02 Rhagfyr 2024.

**5. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

I drafod unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion nad ydynt yn ymddangos ar y Rhaglen.

**6. GWASANAETH ANSAWDD ADDYSG** 10 - 11

I ystyried data a gyflwynwyd ar gyfer 2025/26.

**7. CYLLIDEB 2025/26** 12 - 14

I dderbyn diweddariad gan Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid) ar Gyllideb 2025/26.

**8. GRANTIAU 2025/26**

I dderbyn diweddariad llafar ar faterion yn ymwneud â Grantiau yn 2025/26.

**9. UNRHYW FATER ARALL**

I godi unrhyw fater perthnasol.

**10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

I gadarnhau dyddiad y cifarfod nesaf.

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
# 02.12.2024

**Yn bresennol:**

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Cyllid)

**Penaethiaid Ysgolion:**

Uwchradd: Aled Williams (Ysgol Ardudwy)

Cynradd: Richard Derwyn Jones (Ysgol Chwilog) (Cadeirydd)
Gwion Owens (Ffederasiwn Cefn Coch a Thalsarnau)
Nia Puw (Ysgol Llanrug)
Alan Wynn Jones (Ysgol Cymerau)
Eleri Morgan Davies (Ysgol y Gorlan)
Kyle Jones (Ysgol yr Hendre)

**Llywodraethwyr:** Cynghorydd Ioan Thomas (Ysgol y Gelli ac Ysgol Syr Hugh Owen)
Carys Meleri Fowles (Ysgol Penybryn ac Ysgol Tywyn)
Cynghorydd Gwynfor Owen (Ysgol Hafod Lon)
Cynghorydd Gwilym Jones (Ysgol Borthygest)

**Ysgolion Eglwys:** Joanna Thomas (Ysgol y Faenol)

**Ysgolion Arbennig:**

**Esgobaeth:**

**Undebau Athrawon:** Clive Thomas (Ysgol Syr Hugh Owen)

**Sylwedydd:** Gwern ap Rhisiart (Pennaeth yr Adran Addysg)
Debbie Anne Williams Jones (Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol)
Kathy Bell (Cyfrifydd Grŵp Ysgolion)
Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol: Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad)

**Swyddogion:** Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr)
- Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid)
- Donna Roberts (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig)
- Robert Townsend (Cynrychiolydd yr Esgobaeth)
- David Healey (Cynghorydd Ysgolion Uwchradd)
- Eifion Roberts (Llywodraethwyr: Meirionnydd)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Fforwm a gynhaliwyd ar 30 Medi, 2024 fel rhai cywir.

## 5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Dim i'w nodi.

## 6. AELODAETH Y FFORWM

Diweddarwyd yr Aelodau ar benodiadau newydd i'r Fforwm. Croesawyd Mr Kyle Jones (Ysgol yr Hendre) i'w gyfarfod cyntaf o'r Fforwm fel cynrychiolydd ysgolion cynradd. Nodwyd hefyd bod Mr Robert Townsend wedi cadarnhau y byddai'n cynrychioli'r Esgobaeth ar y Fforwm i'r dyfodol.

## 7. BALANSAU YSGOLION: BLWYDDYN GYLLIDOL 2023/24

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion.

Eglurwyd bod yr adroddiad yn rhannu gwybodaeth am ganrannau balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2024, ynghyd â gwerth y balansau fel canran o ddyraniad terfynol y cyllidebau ysgolion ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24.

Cadarnhawyd bod cyfanswm o falensau o £8.5m gan yr ysgolion oedd yn cael eu defnyddio o 1 Ebrill 2024 ymlaen ar gyfer gosod cyllideb ar gyfer 2024/25. Nodwyd bod gwerth oddeutu hanner cyfanswm y balansau wedi cael eu clustnodi ar gyfer gosod cyllidebau eleni. Ystyriwyd y bydd cyfanswm y balansau yn dra gwahanol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon oherwydd sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor.

Materion yn codi o'r drafodaeth:

Diolchwyd am y wybodaeth gan ofyn faint o'r balansau sydd wedi cael eu defnyddio er mwyn cydbwyso cyllideb y flwyddyn ariannol ddilynol, er mwyn canfod faint o arian sydd yn weddill er defnydd yr ysgolion. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd y Cyfrifydd Grŵp bod balansau ysgolion wedi bod yn uchel iawn yn dilyn y pandemig oherwydd grantiau a ddaeth i law yn dilyn Covid-19. Eglurwyd bod yr arian grant hwnnw yn cael ei ddefnyddio bellach a bod lefelau balansau yn gostwng i fod yn gyffelyb i'r lefelau cyn y pandemig.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

## 8. CYLLIDEB ADDYSG A DYRANIADAU YSGOLION

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion.

Eglurwyd bod yr adroddiad hwn wedi cael ei gyflwyno i'r Fforwm er gwybodaeth. Nodwyd bod y gyllideb Addysg ar gyfer 2024/25 oddeutu £118m gydag oddeutu £97m wedi cael ei ddyrannu i'r ysgolion yng Ngwynedd.

Cyflwynwyd data ar sut mae'r gyllideb yn cael ei ddyrannu rhwng yr ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig. Nodwyd mai niferoedd plant sydd mewn addysg yn y sectorau hynny yw'r gyrrwr mwyaf am sut mae'r arian yn cael ei ddyrannu. Manylwyd bodd oddeutu £6m wedi ei ddyrannu i ysgolion arbennig, £45m i ysgolion cynradd a £42m i ysgolion uwchradd (cyfnod allweddol 3 a 4). Eglurwyd bodd oddeutu £4m yn cael ei ddyrannu i ysgolion uwchradd sydd â chweched dosbarth ar eu safleoedd (6 ysgol uwchradd yn Arfon ac Ysgol Godre'r Berwyn, Meirionnydd).

Materion yn codi o'r drafodaeth:

Cywirwyd yr adroddiad i gadarnhau mai £117,900m yw gwir gyllideb yr Adran Addysg.

Nodwyd bod dangosydd 'IBA' yn cadarnhau cyllideb Addysg Gwynedd i fod yn £119m a gofynnwyd i ble oedd yr £1m ychwanegol hwn yn cael ei wario. Mewn ymateb i'r cwestiwn, cadarnhaodd y Pennaeth Addysg bod amcan dangosydd yr IBA yn cael ei rannu cyn i benderfyniadau gwleidyddol cael eu gwneud a bod dyraniad ariannol yr Adran Addysg wedi cael ei benderfynu gan y Cyngor.

Soniwyd bod £1.5m wedi cael ei glustnodi ar gyfer gwasanaethau ansawdd ysgolion, a gofynnwyd am fanylder am y gwasanaethau sydd yn derbyn yr arian hwn. Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg bod cyfran helaeth o'r arian yn cael ei ddyrannu i GwE ar hyn o bryd wrth i'r gwasanaeth gael ei ail-strwythuro. Ymhelaethwyd bod cyfran o'r arian yn cael ei wario ar reolaeth yr Adran Addysg a grantiau datblygu proffesiynol a chwricwlaidd.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
- **Cynnal trafodaeth bellach ar ddyraniad Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion yn y cyfarfod nesaf.**

**9. DIWEDDARIAD: NEWIDIADAU DULL CYLLIDO ADY**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cynorthwyol: Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad.

Atgoffwyd aelodau'r Fforwm o'r angen i ddyrannu cyllid ADY ar sail anghenion a fformiwla yn hytrach na'r Panel Cymedroli, gan ddilyn arweiniad nifer o Awdurdodau Lleol eraill sydd eisoes wedi cymryd y cam hwn. Esboniwyd y byddai hyn yn arwain at system fwy teg oherwydd bod yr un fformiwla yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob ysgol. Ymhelaethwyd ei fod yn seiliedig ar ddefnyddio data sydd ar gael yn barod. Nodwyd y rhagwelir y bydd y newid hwn yn rhoi mwy o sicrwydd i ysgolion gan arwain at greu swyddi sefydlog i gymorthyddion.

Diweddarwyd aelodau'r Fforwm ar y gwaith sydd ar y gweill hyd at ddiwedd Mawrth 2025.

Eglurwyd bod cyfnod trosglwyddo wedi cael ei adnabod ar gyfer gosod rhwyd ble nad oes cynnydd na gostyngiad o fwy na 50% i'r gyllideb bresennol ar gyfer blwyddyn gyntaf y system. Cadarnhawyd y bydd pob ysgol yn trosglwyddo i'r system yn llawn yn y flwyddyn ganlynol.

Cadarnhawyd bod gwaith modelu pellach gan ddefnyddio data terfynol o fewn y CDU wedi cael ei gwblhau cyn rhyddhau rhagolygon ysgolion yn ddiweddar. Ychwanegwyd bod rhai ysgolion wedi dod i gyswllt gyda swyddogion er mwyn cadarnhau'r sgoriau sydd wedi cael eu

nodi yn y system. Nodwyd bydd y Pennaeth Cynorthwyol yn cynnal trafodaethau gyda'r Cyfrifydd Grŵp er mwyn asesu'r angen i ddiweddaru'r ffigyrau a'u dosbarthu gyda phob ysgol er mwyn sicrhau bod gan holl ysgolion y ffigyrau cywir, neu os oes ysgolion yn dymuno addasu ffigyrau.

Adroddwyd y gobeithir cwblhau dogfennaeth gefnogol erbyn diwedd y tymor. Nodwyd bydd y rhain yn gallu cael eu defnyddio fel llawlyfr i ysgolion o fis Mawrth 2025 ymlaen er mwyn eu hymgyfarwyddo gyda'r system.

Sicrhawyd bydd sesiynau yn cael eu cynnig i ysgolion er mwyn iddynt gael trafodaethau ac arweiniad gan swyddogion. Eglurwyd bydd y rhain yn cael eu cynnal hyd at ganol mis Chwefror ac yn ymwneud â chyllid ADY a'i effaith.

Materion yn codi o'r drafodaeth:

Mewn ymateb i ymholiad ar gynnydd mewn cyllideb ADY, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol nad oes trefniadau i gynyddu'r gyllideb hyd yma. Eglurwyd bod hyn oherwydd heriau ariannol ond gobeithir derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r ddarpariaeth. Cadarnhawyd bod y system newydd yn addasu sut mae'r gyllideb yn cael ei ddyrannu yn hytrach na newid cyfanswm y gyllideb sydd ar gael.

Gofynnwyd sut bydd y trefniant cyllido ADY newydd yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau i ysgolion a disgyblion Gwynedd. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod adolygu parhaus yn ofyniad statudol a bydd adroddiad adolygol yn cael ei gyflwyno bob blwyddyn pan fydd y system yn weithredol. Ymhelaethwyd y bydd yr adroddiad adolygol cyntaf yn cael ei gyflwyno ymhen dwy flynedd er mwyn sicrhau bod y cyfnod trosiannol wedi mynd heibio cyn adolygu'r trefniadau ymhellach. Pwysleisiwyd bod mewnbwn ysgolion yn allweddol i'r adolygiadau er mwyn sicrhau bod yr holl adborth yn derbyn ystyriaeth i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

## 10. RHAGOLYGON YSGOLION

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion.

Adroddwyd y gellir gweld lleihad o 182 mewn niferoedd o ddisgyblion ysgolion cynradd sydd cyfwerth â £338,000. Eglurwyd bod lleihad mewn niferoedd yn arwain at lai o gyllideb ar gyfer ysgolion cyn ystyried unrhyw doriadau ariannol anorfod posib. Cadarnhawyd nad oes unrhyw benderfyniad ffurfiol am doriadau wedi cael eu gwneud hyd yma.

Eglurwyd bod lleihad yn niferoedd disgyblion yn cael mwy o effaith ar gyllidebau ysgolion nac unrhyw doriadau ariannol. Cadarnhawyd bod lleihad i'w weld hefyd mewn niferoedd disgyblion y sector uwchradd a'r chweched dosbarth.

Cadarnhawyd nad oes newid i'w weld yn yr ysgolion arbennig ar hyn o bryd gan fod niferoedd disgyblion yn agos at gapasiti. Adroddwyd bod yr arian sy'n cael ei ddyrannu i'r ysgolion arbennig wedi cynyddu yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn dilyn adolygu dwysedd anghenion y plant sy'n mynychu'r ysgolion. Atgoffwyd aelodau'r Fforwm bod y Cyngor wedi gwarchod ysgolion arbennig rhag toriadau yn y gorffennol, a nodwyd y gallai hyn newid i'r dyfodol yn ddibynnol ar y sefyllfa ariannol dros y blynyddoedd nesaf.

Nodwyd y disgwylir lleihad o oddeutu £1.2m wrth ystyried cyllidebau Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru. Nodwyd y gall hyn arwain at lai o aelodau staff o fewn yr ysgolion gan arwain at ysgolion yn wynebu prosesau gormodedd i'r dyfodol.

Materion yn codi o'r drafodaeth:

Cydnabuwyd bod y sector gynradd wedi wynebu heriau ariannol yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd lleihad mewn niferoedd disgyblion yn flynyddol. Nodwyd pryder bod y lleihad hwn yn mynd i effeithio ar y sector uwchradd wrth i'r disgyblion hynny barhau gyda'u haddysg. Ystyriwyd os bydd yr ysgolion uwchradd lleiaf yn llwyddo i allu cynnig y trawstoriad llawn o'r cwricwlwm yn ogystal â'i ariannu. Cadarnhawyd bod ymgysylltu cychwynnol ar y Strategaeth Addysg wedi cymryd lle eleni a bydd yr Adran yn ymgysylltu ymhellach ym mis Ionawr 2025. Gobeithir y bydd y Strategaeth Addysg newydd hon yn rhoi arweiniad am y 10 mlynedd nesaf er mwyn gallu ymdopi â'r heriau ariannol.

Pwysleisiodd y Pennaeth Addysg nad problem wledig yw lleihad mewn niferoedd disgyblion, gan ei fod yn effeithio pob ysgol o fewn y Sir. Nodwyd ei fod yn allweddol i sicrhau bod arweiniad strategol gadarn yn cael ei roi gyda chefnogaeth yr Aelod Cabinet Addysg newydd mor fuan â phosib er mwyn iddo fod yn weithredol cyn gynted a bod modd.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

**11. UNRHYW FATER ARALL**

Dim i'w nodi.

**12. DYDDIAD AR GYFER Y CYFARFOD NESAF**

Cadarnhawyd bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 17 Chwefror 2025 am 3:45yh. Nodwyd y bydd y rhaglen yn cael ei chyhoeddi ar 7 Chwefror 2025. Eglurwyd bod y dyddiad hwn wedi cael ei adnabod gan ei fod yn amserol wrth i'r Cyngor geisio gosod cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26. Nodwyd y bydd adroddiadau wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (6 Chwefror 2025) a'r Cabinet (11 Chwefror 2025) ar y gyllideb cyn cyflwyno gwybodaeth ariannol i'r Fforwm hwn.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.45 y.h. a daeth i ben am 4:25 y.h.

**<u>Fforwm Cyllideb Ysgolion 17 Chwefror 2025</u>**

## Gwasanaethau Ansawdd Addysg

Ffigyrau diweddaraf 2025/26

| | Cyllideb | Sylwadau |
|---|---|---|
| Cyllideb Rheolaethol yr Adran | £669,230 | Rheolaeth yr Adran gyfan, yn cynnwys elfennau sy'n debygol tu allan i 'safonau'. |
| Dyraniad Craidd GwE | £665,370 | £619,960 ydi cyfraniad 24/25 GwE – chwyddiant o £45,410 ychwanegol bellach, felly'r gyllideb ychydig yn uwch. |
| Grant Safonau | £199,439 | Dyraniad grant cefnogi safonau |
| Dysgu Proffesiynol | £110,711 | Dyraniad grant cefnogi Dysgu Proffesiynol |
| Cwricwlwm | £345,956 | Dyraniad grant cefnogi cwricwlwm yn cynnwys £98,533 'llythrennedd a rhifedd ychwanegol' |
| **Cyfanswm:** | **£1,990,706** | |

**Beth fydd y strwythur o ddiwedd Mai 2025 ymlaen?**

***Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion (Rôl Newydd )***

Er mwyn arwain ar y gwaith Gwella Ysgolion sy'n trosglwyddo atom yn dilyn diddymu GwE, ac integreiddio'r gwaith yma i weddill gwaith cefnogi ysgolion yr Adran, fe fyddwn yn symud i benodi a sefydlu rôl Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion newydd fydd yn cymryd cyfrifoldeb am gefnogi a gwella ysgolion yn ei gyfanrwydd. Pwrpas y swydd fydd arwain y tîm fydd yn cefnogi arweinyddiaeth, ansawdd addysg, rheolaeth a llywodraethiant ysgolion Gwynedd. Fe fydd ystod eang i'r dyletswyddau ond yn ei hanfod fe fydd angen sicrhau fod prosesau ysgolion ac awdurdod o ran cefnogi a gwella ysgolion yn bwrpasol ac effeithiol. Fe fydd disgwyl i'r Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion ddirprwyo ar ran y Pennaeth Addysg yn ôl y gofyn.

***Swyddogion Cefnogi Ysgolion (Rôl Newydd)***

Fe fydd y swyddi hyn yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion, ac yn cyplysu rôl Swyddogion Addysg bresennol a rôl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant sydd yn eistedd yn GwE ar hyn o bryd. Pwrpas y swyddi fydd cefnogi arweinyddiaeth, rheolaeth, ansawdd addysg a llywodraethiant ysgolion Gwynedd. Bydd y swyddogion yma yn treulio mwyafrif helaeth eu hamser mewn ysgolion yn gweithio ochr yn ochr â'n hysgolion i oresgyn heriau a gwella ansawdd profiadau a sicrhau cynnydd ein dysgwyr.

Bydd ffocws pob un o'r swyddogion ar feithrin cydweithio ysgol i ysgol a chlystyrau o ysgolion yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru.

Fe fydd gan rai arbenigedd mewn meysydd penodol ac o ganlyniad fe fydd angen iddynt arwain ar rai agweddau'n draws sirol.

Gan fod canran o'r swyddi yn cael ei ariannu drwy grant fe fyddant yn arwain ar sicrhau ein bod yn cyfarfod â gofynion y grantiau amlygir gan Lywodraeth Cymru o ran cefnogaeth i:

- Ddysgu Proffesiynol a Chefnogaeth i Arweinyddiaeth
- Ddiwygio'r Cwricwlwm
- Cymraeg 2050

Fe fydd yn rhaniad o ran profiad ac arbenigedd sector wedi ei rannu yn 40% uwchradd / gydol oes a 60% cynradd /arbennig.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdod Lleol Ynys Môn er mwyn rhannu arbenigeddau Swyddogion Cefnogi Ysgolion. Yr ydym eisoes yn cydweithio ynghylch ADY a Chynhwysiant, Rhannu Data ac Ôl-16. Mae rolau a chyfrifoldebau a rennir ar draws y bartneriaeth arfaethedig yn cael eu cynllunio ar hyn o bryd a byddant yn cael eu ffurfioli unwaith y bydd newid i'r strwythur staffio a throsglwyddiad staff yn cael ei gadarnhau gan y ddwy ochr.

Byddwn yn parhau i gydweithio ag Awdurdodau Lleol eraill y tu hwnt i'r trefniant partneriaeth lleol yn unol â'r gofyn. Un maes allweddol lle y mae dymuniad i ddatblygu byddai cefnogaeth i Ysgolion Arbennig.

Dros amser disgwylir i nifer y Swyddogion Cefnogi Ysgolion leihau wrth i'r gwaith o gefnogi ysgol i ysgol aeddfedu, fodd bynnag yr ydym yn cydnabod y gall hynny gymryd peth amser yn enwedig yma yng Ngwynedd.

***Swyddogion Cynorthwyol Cefnogi Ysgolion***

Fe fydd y swyddi yma yn canolbwyntio ar gefnogi agweddau sydd ddim yn effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd addysg. Gall gynnwys cefnogaeth i Lywodraethwyr, arweiniad ar ddelio â chwynion neu gyngor cychwynnol ar ystod o heriau gan gynnwys materion adnoddau dynol.

***Cymhorthydd Cefnogi Ysgolion***

Fe fydd y swydd yma yn cynnig cefnogaeth weinyddol i'r tîm ynghyd a darparu cefnogaeth weinyddol i Gyrff Llywodraethol.

**Sut y byddwn ni'n hyrwyddo gwaith ysgol i ysgol?**

Fe fyddwn ni'n cadw cyllideb wrth gefn er mwyn rhyddhau ysgolion i gefnogi ysgolion eraill. Bydd y gwaith yn cael ei gomisiynu o'r canol. Does dim modd bod yn bendant o ran maint y gyllideb ar hyn o bryd.

**Cyfarfod:** Fforwm Cyllideb Ysgolion

**Dyddiad:** 17 Chwefror 2025

**Pwnc:** Cyllideb 2025/26

**Awdur:** Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

---

**CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN**

1. Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26.
2. Gosodir y gyllideb hon mewn cyfnod ble mae awdurdodau lleol Cymru yn parhau i wynebu heriau ariannol, lle nad yw'r ychwanegiad i'r setliad yn cwrdd â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau.
3. Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cynnydd grant Llywodraeth o 3.1% ar gyfer 2025/26, sy'n cyfateb i gynnydd gwerth £7.5m mewn ariannu allanol. Yn ogystal â hynny, mae sail y setliad am 2024/25 wedi cynyddu o £6.5m i adlewyrchu trosglwyddo cyfrifoldebau i'r setliad, sydd hefyd yn arian ychwanegol wedi ei gynnwys yn y grant.
4. Erbyn 2025/26, byddai angen cynyddu ein gwariant o £24.2m er mwyn "sefyll yn llonydd". Mae hyn yn cynnwys £7.7m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau, uwchlaw chwyddiant.
5. Bydd y Cyngor llawn ar 6 Mawrth 2025 yn clywed fod pwysau galw ar wasanaethau yn ogystal â phwysau chwyddiant yn dangos fod rhaid ystyried cyfuniad o gynnydd Treth Cyngor a chyflwyno rhaglen newydd o arbedion a thoriadau os am osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26. Mae cyllideb 2025/26 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac yn argymell cynnydd o 8.66% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Hyd yn oed wedyn, byddwn angen chwilio am arbedion a thoriadau i osod cyllideb gytbwys, ac mae rhagolygon yn awgrymu bydd pwysau pellach wrth anelu i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27.

**ARBEDION PRESENNOL (SYDD WEDI EU CYMERADWYO'N FLAENOROL)**

6. **Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £42m o gynlluniau arbedion ers 2015/16.**

7. Ar 20 Chwefror 2024, bu i'r Cabinet gymeradwyo gwerth £5.2m o arbedion ar gyfer cyllideb 2024/25 ymlaen. Mae gwerth £2,860,300 o'r arbedion wedi eu proffilio ar gyfer 2025/26. Bu i'r £5.2m yn ei gyfanrwydd ei weithredu yng nghyllideb 2024/25, gydag arbedion y blynyddoedd dilynol yn cael eu pontio o gronfeydd. Felly, nid yw arbedion 2025/26 a 2026/27 yn cynorthwyo i leihau y bwlch ariannol yn y blynyddoedd hynny.

8. Mae tri cynllun arbedion gwerth £650k sydd yn berthnasol i 2025/26 yn deillio o raglenni blaenorol o arbedion ac ar gael i lenwi bwlch 2025/26.

9. Mae gwerth yr arbedion fesul adran wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol.

| **Arbedion sydd eisoes wedi eu rhaglennu i leihau bwlch Cyllideb 2025/26** | |
|---|---|
| | £ |
| Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,123,120 |
| Adran Amgylchedd | 949,630 |
| Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC | 462,500 |
| Adran Cyllid a Technoleg Gwybodaeth | 292,540 |
| Adran Addysg | 151,960 |
| Adran Economi a Chymuned | 135,020 |
| Adran Gwasanaethau Corfforaethol | 218,620 |
| Tim Rheoli Corfforaethol | 30,000 |
| **Is-Gyfanswm** | **3,363,390** |
| Llai: Darpariaeth Arbedion | (286,030) |
| **Arbedion Cynlluniedig Presennol 2025/26** | **3,077,360** |

10. Fel gellir gweld, nid oes arbedion na thoriadau yn effeithio ar ysgolion yn 2025/26, ond tynnir sylw'r Fforwm i baragraff 16 isod, sy'n ymwneud â demograffi.

**YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2025/26**

11. **Cefndir:** Y bydd cynnydd arferol yn y cwantwm ysgolion Gwynedd eleni, gan fod y Cyngor (yn wahanol i rai awdurdodau lleol) yn ariannu chwyddiant, incrementau cyflog, a demograffi.

12. **Chwyddiant:** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu **£3.1m** eleni ar gyfer cynnydd chwyddiant, gan gynnwys chwyddiant tâl a phensiwn athrawon. Bydd hyn yn cyfarch cynnydd costau cyflogau athrawon o 5.5% am y 5 mis Ebrill – Awst, sef effaith blwyddyn lawn cytundeb tâl Medi 2024, a hefyd cost cynnydd pellach o 3% amcangyfrifir ar gyfer cytundeb tâl Medi 2025 (am y 7 mis Medi 2025 – Mawrth 2026). Mae cynnydd cyflog staff ategol Ebrill 2024 hefyd wedi'i gynnwys ac amcan pellach o 3% Ebrill 2025.

13. **Yswiriant Gwladol:** Bydd cynnydd o **£1.9m** mewn cost yswiriant gwladol cyflogwr, yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Lloegr i gynyddu cyfradd cyflogwr o 13.8% i 15.0%, ynghyd â lleihau'r trothwy i £5,000.

14. **Pensiwn Athrawon:** Roedd cynnydd yn y gyfradd cyfraniad cyflogwr ar bensiwn athrawon o 5% o Ebrill 2024. Mae grant penodol wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2024/25 i ariannu'r cynnydd, gyda'r grant yn trosglwyddo i'r setliad ar gyfer 2025/26.

15. **Incrementau Cyflog Staff:** Ychwanegir £474k i gyllideb ar gyfer 2025/26 i ymdrin ag incrementau a lleihad trosiant staff o (£134k).

16. **Demograffi (niferoedd disgyblion):** Bydd y gyllideb ysgolion yn lleihau eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau mewn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2024 i gyfrifo dyraniadau 2025/26. Mae'r sefyllfa yn amrywio o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith lleihad niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn lleihau (£643k), sy'n cynnwys lleihad (£415k) i'r sector Gynradd a lleihad (£228k) i'r sector Uwchradd. Bydd ysgolion unigol yn disgwyl cynnydd / gostyngiad yn eu dyraniadau yn gymesur â'r newid mewn niferoedd disgyblion yn yr ysgolion.

17. **Arbedion a Thoriadau:** Ar ôl gweithredu toriadau â cyfanswm o £1.966m yn 2023/24 a 2024/25, nid oes bwriad gweithredu arbedion pellach ar ysgolion yn 2025/26.

18. **Grantiau Penodol Addysg:** Ymddengys y bydd grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru yn parhau ym maes Addysg yn 2025/26 gan ddilyn yr un sail dyrannu â 2024/25.

19. **Casgliad Cyffredinol:** Wedi cymryd yr holl ffactorau uchod i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion yn uwch yn 2025/26 o'i gymharu gyda 2024/25.